



Ann Jones AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA

27/02/2014

Annwyl Ms Jones,

### Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Mae Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) yn croesawu'r cyfle i gynnig tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Cyflwynir tystiolaeth i gynorthwyo'r pwyllgor wrth fynd ati i ymchwilio i faes lle mae diwallu anghenion unigolion, gan gynnwys eu hanghenion iaith, yn gwbl greiddiol i ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.org

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Crëwyd swydd y Comisiynydd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Caiff y Comisiynydd ymchwilio i fethiant i weithredu cynllun iaith; ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yng Nghymru ac, yn y dyfodol, i gwynion ynghylch methiant sefydliadau i gydymffurfio â safonau.

Un o amcanion strategol y Comisiynydd yw dylanwadu ar yr ystyriaeth a roddir i'r Gymraeg mewn datblygiadau polisi. Felly prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Gellir crynhoi sylwadau'r Comisiynydd a'r materion posibl y gallai'r pwyllgor roi sylw iddynt wrth fynd ati i ymchwilio i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed fel a ganlyn:

### 1. Cyfrifiad 2011

Yn ôl ystadegau Cyfrifiad 2011, mae oddeutu 23% o blant 3-4 oed, 38% o blant 5-9 oed a 42% o blant 10-14 oed Cymru yn gallu siarad Cymraeg. Yn ogystal â hyn, nodir yn natganiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol bod 18% o'r boblogaeth dan 16 oed yn gallu siarad Cymraeg. Mae ystyried anghenion ieithyddol cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn greiddiol i unrhyw drafodaethau a datblygiadau sy'n rhan o hawliau plant.

### 2. Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Fel y nodir uchod, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (y Mesur) yn datgan fod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru ac na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar ben hynny, nodir bod dilysrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg a bod rhyddid gan bersonau sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny gyda'i gilydd.

Mae'r Mesur hefyd yn gosod fframwaith cyfreithiol fydd yn gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Comisiynydd raglen cynnal ymchwiliadau safonau sy'n nodi bod Byrddau Iechyd Cymru yn rhan o Gylch 2.

### 3. Adroddiad diweddar Siarter Ewrop (2014)

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi Siarter Ewropeaidd ar gyfer leithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol sy'n ymrwymo i "*sicrhau bod cyfleusterau gofal a chymdeithasol megis ysbytai, cartrefi ymddeol a hosteli yn cynnig y posibilrwydd o dderbyn ac ymdrin â phobl sy'n defnyddio iaith ranbarthol neu leiafrifol ac sydd ag angen gofal oherwydd afiechyd, henaint neu resymau eraill yn eu hiaith eu hunain*".



Mae trydydd argymhelliad yr adroddiad canlyniadol<sup>1</sup> yn argymhell “*sicrhau bod cyfleusterau iechyd a gofal yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg*”. Er bod yr adroddiad yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r fframwaith strategol i gryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ym maes iechyd a gofal, mae hefyd yn dod i'r casgliad canlynol: “*Er gwaethaf y datblygiadau positif, mae cryn bryder ynghylch y sefyllfa ar lawr gwlad*”.

#### 4. ‘Mwy na geiriau...’

Fel y gwyddoch, mae sicrhau ffyniant y Gymraeg yn un o 19 o amcanion craidd Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi datblygu fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Gymraeg mewn lechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol, sef ‘Mwy na geiriau...’. Mae'r fframwaith yn cynnig dull systematig o fynd ati i wella gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd angen neu'n dewis derbyn eu gofal yn Gymraeg. Hyderwn y bydd yr ymchwiliad hwn i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ystyried amcanion y fframwaith ac yn sicrhau cefnogaeth lwyr i ddinasyddion petaent yn dewis defnyddio'r iaith Gymraeg wrth ymdrin a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae cynnig gwasanaethau rhagweithiol yn Gymraeg yn elfen hollbwysig o ofal sydd o ansawdd uchel ac fe ddylai gael ei brif ffrydio i wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAHMS).

#### 5. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

Mae nifer o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn berthnasol i iaith. Gwarchod y plentyn rhag dioddef gwahaniaethu ar sail iaith ac yn rhoi dyletswydd ar bartïon gwladwriaethau i amddiffyn y plentyn rhag pob ffurf o gamwahaniaethu yw datganiad Erthygl 2. Ceir cyfeiriadau penodol at iaith a mynegi barn gydag erthyglau 12, 13 a 29 ac mae erthygl 30 yn rhoi'r hawl i'r plentyn sy'n perthyn i leiafrif ddefnyddio ei iaith ei hun mewn cymuned ag aelodau eraill o'i grŵp. Mae Erthygl 24 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn datgan fod gan blant hawl i iechyd a gwasanaethau iechyd: “*Every child has the right to the best possible health.*” Felly, dylai gwasanaeth iechyd meddwl plant a'r glasoed ddigwydd trwy gyfrwng eu mamiaith.

#### 6. Deddf Plant 2004

Un o'r ffyrdd pwysicaf y caiff plant yng Nghymru eu gwarchod yw trwy roi dyletswydd statudol ar gyrfn cyhoeddus i ddiogelu a hybu lles plant. Wrth gyflawni dyletswydd adran 28 Deddf Plant 2004 a thalu sylw at ganllaw Llywodraeth Cymru<sup>2</sup>, bydd angen i gyrfn adran 28 roi rhesymau clir dros beidio ag ystyried y canllaw. Mae Adran 28 yn diogelu hawliau ieithyddol plant ac mae penodau 7 ac 8 y canllaw yn darparu

<sup>1</sup> Cyngor Ewrop (2014), ECRML (2014) Pedwerydd Adroddiad Pwyllgor Arbenigwyr Cyngor Ewrop mewn perthynas a'r Deyrnas Unedig

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004*



tystiolaeth ar sut i ddiogelu a hybu lles plant . Os yw corff Adran 28 yn cefnu ar y canllaw heb roi rhesymau clir, ni fydd y corff yn cydymffurfio â dyletswydd adran 28 ac fe fydd yn torri'r gyfraith.

Dylid rhoi ystyriaeth lawn i anghenion ieithyddol plant er mwyn iddynt gael eu parchu a'u diwallu. Dylai plant dderbyn holl wasanaethau CAMHS o'r un safon ac o fewn yr un amserlen yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

### **7. Cynllunio'r gweithlu gan roi ystyriaeth i sgiliau iaith**

Er mwyn diwallu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg rhaid i'r broses o gynllunio'r gweithlu gynnwys ystyriaethau ynghylch sgiliau iaith. Mae pob un o'r byrddau iechyd wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Sgiliau iaith.

Wrth ystyried sgiliau iaith fel elfen o gynllunio'r gweithlu, gellid dadansoddi ymhle mae angen sgiliau Cymraeg ac ymhle y ceir sgiliau'n barod. O ganlyniad i'r ymarferiad hwn, byddai modd cynllunio'n synhwyrol er mwyn cyrraedd y nod o ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl Cymraeg o ansawdd uchel yng Nghymru.

### **8. Diwallu anghenion iaith mewn maes sensitif**

Er mwyn cydymffurfio gydag ymrwymadau cyffredinol Adran 78 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'i diwygiwyd, a'i Chynllun Iaith Gymraeg, dylai'r Llywodraeth dalu sylw arbennig i bob cyfle i wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dylid ystyried yn fanwl pa gyfleoedd sydd i gau unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau Gymraeg ym maes iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ar draws Cymru. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd, asiantaethau statudol eraill a Llywodraeth Cymru fel ei gilydd i adnabod y bylchau hyn a chynllunio yn lleol a chenedlaethol yn sgil Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n hanfodol bod cyrff yn unioni'r meysydd hynny lle nad yw siaradwyr Cymraeg yn cael gwasanaeth cyfartal â defnyddwyr di-gymraeg ar hyn o bryd.

Pwysleisir yr angen i gynnal gwasanaeth Cymraeg llawn o fewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) er mwyn diwallu anghenion ieithyddol yr unigolyn mewn maes hynod o sensitif, lle mae iaith yn gyfrwng cyfathrebu ac hefyd yn gyfrwng therapi.

Mae'n hollbwysig bod gan y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau, hawl i gyfathrebu a derbyn y gwasanaethau dan sylw yn ôl eu angen ieithyddol. Rhaid i'r broses asesu ddarparu gwasanaeth sy'n cyrraedd yr un safon ac a gaiff ei wireddu o fewn yr un amser, boed trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Diolch i chi am y cyfle i ddarparu tystiolaeth i'ch ymchwiliad. Gofynnwn i chi roi ystyriaeth lawn i'r sylwadau a nodir uchod.

Yr eiddoch yn gywir

**Meri Huws**

Comisiynydd y Gymraeg